**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2011 Rhif 48

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LLWYFANDIR MANWERTHU BARGOED, BARGOED) 2011**

*Gwnaed 1 Rhagfyr 2011*

*Yn dod i rym 8 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990") a phob pŵer galluogi arall**(2)**.

**1**. Yn y gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor (*"the Council"*) *yw* Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ystyr "y datblygwr" *("the developer")* yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi iddo;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Llwyfandir Manwerthu Bargoed, Bargoed) 2011" ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5, a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni bod angen y cau i alluogi gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 28 Gorffennaf 2011 o dan y cyfeirnod 11/0259/OUT.

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r rhannau o briffordd wedi eu gwella, a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau croes ar y plan a adneuwyd, sef priffyrdd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(3)**, sydd i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

**4.** Ni cheir cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd nes bo:

(a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, cynlluniau sy'n dangos y modd y caiff y rhannau o briffordd eu cau;

(b) y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei gychwyn a'r datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor mewn ysgrifen o'r angen i gau'r rhannau o briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd ymlaen; ac

(ch) y Cyngor wedi cadarnhau wrth y datblygwr mewn ysgrifen bod darpariaethau (a) (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

**5**. Os bydd, yn union cyn cau'r rhannau o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd honno, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yn parhau i fod â'r un hawliau o ran yr offer hynny ag a oedd ganddynt cyn y cau.

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod parhad y caniatâd cynllunio, neu os dirymir y caniatâd cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

**7.** Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990, a'i enw fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Llwyfandir Manwerthu Bargoed, Bargoed) 2011.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Rhagfyr 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn, o ran Cymru, bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) 1980 p.66

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n ymestyn o ben de-orllewinol Colliers Walk i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, gyda'i hyd ar y mwyaf yn 40 metr, ei lled ar y mwyaf yn 5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 95 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt A at y pwynt B ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n ymestyn o ben de-orllewinol North Lane i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, gyda'i hyd ar y mwyaf yn 160 metr, ei lled ar y mwyaf yn 17 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,548 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt C at y pwynt D ar y plan a adneuwyd.

.

iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i'r gorllewin o'r A469, Angel Way, ac yn agos iawn at Gylchfan Bargoed. Bydd ei hyd yn 80 metr ar y mwyaf, ei lled yn 48 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 3,425 metr sgwâr, a dynodir hi gan y llythyren gyfeirnod E ar y plan a adneuwyd.

iv) Rhan betryal o briffordd ar North Lane sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 5 metr, ei lled ar y mwyaf yn 0.2 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 1.1 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt I at y pwynt J ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Darn petryal o dir i ffurfio pen troi ym mhen gogleddol Colliers Walk, sydd â'i hyd yn 8 metr ar y mwyaf, ei led yn 6 metr ar y mwyaf, cyfanswm ei arwynebedd yn 41.3 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y llythyren gyfeirnod K ar y plan a adneuwyd.

ii) Darn trionglog o dir ar ochr orllewinol Bargoed Gateway, yn y fynedfa i iard wasanaethu'r uwchfarchnad arfaethedig. Ei hyd yw 11 metr ar y mwyaf, ei led 3 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei arwynebedd yw 20.6 metr sgwâr, a dynodir ef â'r llythyren gyfeirnod L ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

i) Rhan betryal o droetffordd yn Bargoed Gateway sydd â'i hyd yn 232.5 metr ar y mwyaf, ei lled yn 2.1 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 490 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt F at y pwynt G ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan betryal o ymyl ffordd yn Bargoed Gateway sydd â'i hyd yn 7 metr ar y mwyaf, ei lled yn 2.05 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 14.4 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod H ar y plan a adneuwyd.

iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ymestyn o'r datblygiad newydd ar ochr ddwyreiniol Colliers Walk at y droetffordd ar Hanbury Road, ac sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 556.8 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod M ar y plan a adneuwyd.

iv) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i'r gorllewin o'r A469, Angel Way, yn agos iawn at Gylchfan Bargoed ac o flaen y rhan E, gyda chyfanswm ei harwynebedd yn 678.1 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod N ar y plan a adneuwyd.

v) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ymestyn o North Lane i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at y grisiau presennol, gyda'i hyd yn 65 metr ar y mwyaf, ei lled yn 5.2 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 341 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod O ar y cynllun a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**Datblygiad arfaethedig ar Lwyfandir Manwerthu Bargoed, i'r dwyrain o Hanbury Road ac i'r gorllewin o Angel Way/A469, Bargoed, ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**

Datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys uwchfarchnad ac unedau manwerthu, bwytai a chaffes, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, sinema, llety preswyl gan gynnwys cyfleusterau i barcio ceir, sgwâr cyhoeddus newydd, cysylltiadau newydd i gerddwyr, mynedfa newydd i gerbydau, gwelliannau priffordd, tirlunio a thriniaethau ffiniol a gorsaf betrol a siop flaengwrt newydd.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LLWYFANDIR MANWERTHU BARGOED, BARGOED) 2011

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; darparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; a gwella'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir y cau ac eithrio i alluogi gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y Gorchymyn yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os dirymir y caniatâd cynllunio.

Yn ystod y 6 wythnos o 8 Rhagfyr 2011 ymlaen, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn ddi-dâl yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gofal Cwsmeriaid Priffyrdd, Tŷ Pontllanfraith, Pontllanfraith, Y Coed-duon NP12 2YW neu gellir eu cael yn ddi-dâl o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru, CZ510-5-57-qA959067.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau sydd ynddo ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
b. bod ei fuddiannau wedi eu peryglu'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos o 8 Rhagfyr 2011, wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Dewiser: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth, Cymru/ Gorchmynion Cau TCPA/ 2011).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen Gorchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ**.

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Y Gangen Gorchmynion
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n ymestyn o ben de-orllewinol Colliers Walk i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, gyda'i hyd ar y mwyaf yn 40 metr, ei lled ar y mwyaf yn 5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 95 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt A at y pwynt B ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n ymestyn o ben de-orllewinol North Lane i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, gyda'i hyd ar y mwyaf yn 160 metr, ei lled ar y mwyaf yn 17 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,548 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt C at y pwynt D ar y plan a adneuwyd.
.
iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i'r gorllewin o'r A469, Angel Way, ac yn agos iawn at Gylchfan Bargoed. Bydd ei hyd yn 80 metr ar y mwyaf, ei lled yn 48 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 3,425 metr sgwâr, a dynodir hi gan y llythyren gyfeirnod E ar y plan a adneuwyd.

iv) Rhan betryal o briffordd ar North Lane sydd â'i hyd ar y mwyaf yn 5 metr, ei lled ar y mwyaf yn 0.2 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 1.1 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt I at y pwynt J ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn</u>**

i) Darn petryal o dir i ffurfio pen troi ym mhen gogleddol Colliers Way, sydd â'i hyd yn 8 metr ar y mwyaf, ei led yn 6 metr ar y mwyaf, cyfanswm ei arwynebedd yn 41.3 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y llythyren gyfeirnod K ar y plan a adneuwyd.

ii) Darn trionglog o dir ar ochr orllewinol Bargoed Gateway, yn y fynedfa i iard wasanaethu'r uwchfarchnad arfaethedig. Ei hyd yw 11 metr ar y mwyaf, ei led 3 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei

arwynebedd yw 20.6 metr sgwâr, a dynodir ef â'r llythyren gyfeirnod L ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

i) Rhan betryal o droetffordd yn Bargoed Gateway sydd â'i hyd yn 232.5 metr ar y mwyaf, ei lled yn 2.1 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 490 metr sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o'r pwynt F at y pwynt G ar y plan a adneuwyd.

ii) Rhan betryal o ymyl ffordd yn Bargoed Gateway sydd â'i hyd yn 7 metr ar y mwyaf, ei lled yn 2.05 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 14.4 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod H ar y plan a adneuwyd.

iii) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ymestyn o'r datblygiad newydd ar ochr ddwyreiniol Colliers Walk at y droetffordd ar Hanbury Road, ac sydd â chyfanswm ei harwynebedd yn 556.8 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod M ar y plan a adneuwyd.

iv) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sydd i'r gorllewin o'r A469, Angel Way, yn agos iawn at Gylchfan Bargoed ac o flaen y rhan E, gyda chyfanswm ei harwynebedd yn 678.1 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod N ar y plan a adneuwyd.

v) Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ymestyn o North Lane i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at y grisiau presennol, gyda'i hyd yn 65 metr ar y mwyaf, ei lled yn 5.2 metr ar y mwyaf a chyfanswm ei harwynebedd yn 341 metr sgwâr. Mae'r rhan yn dwyn y llythyren gyfeirnod O ar y cynllun a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**Datblygiad arfaethedig ar Lwyfandir Manwerthu Bargoed, i'r dwyrain o Hanbury Road ac i'r gorllewin o Angel Way/A469, Bargoed, ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**

Datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys uwchfarchnad ac unedau manwerthu, bwytai a chaffes, gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, sinema, llety preswyl gan gynnwys cyfleusterau i barcio ceir, sgwâr cyhoeddus newydd, cysylltiadau newydd i gerddwyr, mynedfa newydd i gerbydau, gwelliannau priffordd, tirlunio a thriniaethau ffiniol a gorsaf betrol a siop flaengwrt newydd, yn unol â'r caniatâd cynllunio a

roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 28 Gorffennaf 2011 o dan y cyfeirnod 11/0259/OUT.